

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

23 Medi 2015

Yn bresennol: Y Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr D Ellis, y Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, y Cynghorydd ST Hudson, y Cynghorydd Mrs L Jenkins, y Cynghorydd R Kilmister, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Neuadd Bentref Nanhyfer, Nanhyfer: 10:00-12:15)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr A Archer, y Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, y Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd D Rees a'r Cynghorydd M Williams.

2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- (a) Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod Mr Steve Brick, a oedd yn Swyddog Technegol, newydd ddathlu 40 mlynedd o gyflogaeth gyda'r Awdurdod. Dywedodd fod Steve yn gydweithiwr ymroddedig, uchel ei barch a gwybodus ac roedd yn aelod gwerthfawr o'r staff. Roedd yn dymuno cofnodi ei longyfarchiadau i Steve ar ei gamp a'i ymrwymiad i waith Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- (b) Hysbyswyd yr Aelodau fod Theatr y Dorch yn Aberdaugleddau yn cynnal tymor 'vintage', ac roedd y ffilm *Brief Encounter* yn un o'r ffilmiau a oedd yn cael eu dangos. Roedd poster retro, a oedd yn debyg o ran arddull i'r chwech a gomisiynwyd gan yr Awdurdod pan oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 60, wedi ei gomisiynu a chafodd ei ddangos i'r Aelodau yn y cyfarfod.
- (c) Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny o'r cyhoedd a oedd wedi dod i wrando ar yr Awdurdod yn trafod ei waith yn Neuadd y Pentref. Roedd yn gobeithio y byddai'n rhoi gwell cipolwg iddynt ar waith yr Awdurdod.

3. Datgelu Buddiant

Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant personol yn Adroddiad Rhif 50/15 - Ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol (*Gweler cofnod 12 isod*).



Datgelodd y Cynghorydd PJ Morgan fuddiant personol a niweidiol yn Adroddiad Rhif 52 / 15 - Cyfarwyddyd Erthygl 4 i leihau hawliau datblygu penodol a ganiateir sy'n effeithio ar ansawdd Ardal Gadwraeth Aber-bach (*Gweler Cofnod 14 isod*).

4. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2015 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a'u llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2015.

5. **Materion sy'n codi**

(a) Cofnod 8 - Melin Caeriw - to newydd

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd PJ Morgan, dywedodd y Prif Weithredwr fod ail gam y broses dendro yn mynd rhagddi, ac roedd chwech o gontractwyr wedi eu gwahodd i dendro am y gwaith o ailosod y to ar Felin Caeriw. Roedd y tendrau i fod i gael eu dychwelyd erbyn 25 Medi 2015, a gobeithiwyd y byddai'r Awdurdod mewn sefyllfa bryd hynny i ddyfarnu'r contract.

NODWYD.

(b) Cofnod 15 - Adroddiad terfynol a chanfyddiadau Cyd-grŵp Craffu'r Parciau Cenedlaethol ar yr Economi

Gan gyfeirio at y Cofnod uchod, gofynnodd Mrs G Hayward a oedd cynnydd wedi ei wneud ar y cynllun gweithredu i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad. Holodd hefyd a oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a oedd hefyd wedi cymryd rhan yn y broses graffu, wedi cael cyfle ystyried yr adroddiad terfynol er mwyn medru dosbarthu'r ddogfen i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y broses.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf yr Awdurdod i'w ystyried. Ychwanegodd y byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystyried y canfyddiadau ym mis Tachwedd. Serch hynny, roedd o'r farn y gallai'r adroddiad gael ei ddosbarthu i'r cyfranogwyr hynny a oedd wedi eu lleoli yn Sir Benfro.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad terfynol yn cael ei ddosbarthu i'r cyfranogwyr yn Sir Benfro.



6. Adroddiadau o amryw gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cafodd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod eu cyflwyno i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth:

- (i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2015;
- (ii) Y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2015, a
- (iii) Y Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2015.

PENDERFYNWYD:

- (a) derbyn yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2015, a
- (b) bod adroddiadau'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a'r Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 15 a 29 Gorffennaf 2015, yn y drefn honno, yn cael eu mabwysiadu.

7. Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Richard Harries, a fyddai'n cyflwyno'r adroddiad ISA260 ar ran Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd Mr Harries yn falch o gyhoeddi mai ychydig iawn a oedd i'w ddwyn i sylw'r Aelodau, a bod adroddiad diamod wedi cael ei gyflwyno eto am y drydedd flwyddyn yn olynol. Dywedodd fod y cyfrifon a gyflwynwyd o ansawdd uchel iawn unwaith eto, a bod cydweithrediad y Rheolwr Cyllid a'i dîm wedi bod yn ardderchog; heb eu cymorth hwy, byddai gwaith y tîm Archwilio yn llawer anoddach. Aeth ymlaen i ddweud bod y flwyddyn ddiwethaf wedi gweld rhai newidiadau yn y ffordd y gweithiodd y tîm Archwilio ac, er bod y rhan fwyaf o'r newidiadau wedi gweithio, roedd rhai heb weithio, a byddai'r materion hynny yn cael eu hadolygu a byddai ffordd ymlaen yn cael ei thrafod. Fodd bynnag, roedd y ddau dîm wedi gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd, ar y cyfan.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Harries am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau. Hefyd, roedd yr Aelodau yn awyddus i gydnabod y ffaith bod yr Awdurdod wedi cael archwiliad glân dair blynedd yn olynol, a diolchodd i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu holl waith caled.



PENDERFYNWYD:

- (a) bod yr Adroddiad ISA260 gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei dderbyn, a
- (b) bod y Datganiad o Gyfrifon 2014/15 yr Awdurdod yn cael ei gymeradwyo, a'i lofnodi gan y Cadeirydd.

8. Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad Gwella Blynyddol

Croesawodd y Cadeirydd Mr John Roberts o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Cyflwynodd Mr Roberts yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dywedodd Mr Roberts ei bod yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio trefniadau cynllunio gwelliannau ac adrodd Cynghorau Cymru, Awdurdodau Tân ac Achub, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol bob blwyddyn, ac asesu a fyddai pob awdurdod yn bodloni'r dyletswyddau statudol ar gyfer gwelliant parhaus, fel sy'n ofynnol o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Roedd yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn canolbwyntio ar waith a wnaed gan yr Awdurdod yn 2013/14. Dywedodd mai dyna sut oedd y broses archwilio yn gweithio, ond roedd o'r farn ei fod yn ychwanegu gwerth at waith yr Awdurdod. Ymddiheurodd am fod yn hwyr yn cyflwyno'r ddogfen, ond gohiriwyd ef er mwyn adlewyrchu rhan o'r gwaith archwilio a wnaed ar yr un pryd ar wasanaeth cynllunio'r Awdurdod.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Mr Roberts ei fod ef a'i gydweithwyr wedi dod i'r casgliad cyffredinol fod yr Awdurdod wedi bod yn effeithiol o ran rheoli toriadau i'r gyllideb a hybu iechyd a lles. Roedd hefyd wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ac roeddynt yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i fod yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon o ran defnyddio adnoddau. Nid oedd unrhyw argymhellion i'w gwneud, er bod un argymhelliad ar gyfer gwella a oedd yn ymwneud â datblygu dull mwy cadarn o gynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig a allai fod o gymorth i'r Awdurdod i ymateb yn effeithiol i ystod o sefyllfaoedd lle'r oedd llai o gyllid.

Croesawodd yr aelodau yr adroddiad, ond cwestiynwyd yr argymhelliad, gan ddweud ei bod yn anodd iawn i gynllunio ar gyfer y dyfodol pan nad oedd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r ffigurau terfynol tan y funud olaf un. Yn wir, roedd mis o'r flwyddyn ariannol bresennol eisoes wedi mynd heibio



cyn i'r Awdurdod gael ffigur y gyllideb derfynol ar gyfer 2015/16, a oedd yn ei gwneud yn eithriadol o anodd i gynllunio at y dyfodol. Roedd Mr Roberts o'r farn bod yn rhaid i'r Awdurdod, felly, fod yn fwy ystwyth yn ei gynllunio ariannol, er ei fod yn derbyn bod hynny'n anodd i'w wneud. Derbyniodd hefyd fod yr Awdurdod yn defnyddio amrywiaeth o opsiynau i 'fantoli'r cyfrifon', ond nad yw'r broses honno'n swyddogol, a dyna'r rheswm wrth wraidd yr argymhelliad i fod yn "fwy cadarn", yn hytrach na "chadarn".

Atgoffodd y Prif Weithredwrmyr Aelodau eu bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gyllidebau a sefyllfaoedd trwy weithdai rheolaidd. Fodd bynnag, holodd y Cynghorydd R Kilmister a ddylai'r Aelodau fod yn craffu'n ariannol yn gyhoeddus ar y gyllideb yn fwy rheolaidd, yn hytrach na'i thrafod mewn lleoliad Gweithdy. Gan gofio'r ffaith bod yr Aelodau yn rhedeg yr Awdurdod ar ran y cyhoedd, roedd hyn yn peri pryder iddo.

Atebodd Mr Roberts mai mater i'r Aelodau oedd y broses ei hun, er ei fod yn rhybuddio bod yn rhaid i rai trafodaethau - yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â gweithwyr – gael eu cynnal yn breifat. Awgrymodd y gallai rhai o'r materion a drafodir yn y sesiynau hynny gael eu gwneud yn gyhoeddus yn nes ymlaen. Atgoffodd Mr AE Sangster yr Aelodau eu bod yn cael eu gorfodi i edrych ymlaen llaw ar wahanol sefyllfaoedd am fod y wybodaeth gan Lywodraeth Cymru mor hwyr. Roedd o'r farn bod y broses bresennol yn briodol, ond roedd yn cydnabod y dylai'r rhesymau dros eu penderfyniadau gael eu gwneud yn gyhoeddus.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Roberts am gyflwyno'r adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15.

9. Rhan 2 Cynllun Gwella 2014/15

O dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Rhan 2 ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref 2015. Roedd y ddogfen hon yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn rhaglen waith y flwyddyn ariannol flaenorol fel y nodir yn Rhan 1 Cynllun Gwella 2014/15, a gymeradwywyd ar 2 Ebrill 2014.

Croesawodd yr Aelodau yr adroddiad, yn amodol ar egluro nifer o faterion yn ymwneud ag amryw ddigwyddiadau Cymraeg a gefnogir yn Oriol y Parc, y targed a osodwyd ar gyfer y ganran o geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn wyth wythnos, y cynnydd a wnaed o ran dynodi



Ardaloedd Cadwraeth ychwanegol o fewn y Parc Cenedlaethol, a'r cynnydd yn y broses graffu ar yr economi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Rhan 2 Cynllun Gwella 2014/15.

- 10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: canllawiau statudol**
Soniwyd fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael Cydsyniad Brenhinol yn gynharach yn y flwyddyn ac y byddai'r dyletswyddau a osodir ar gyfrif cyhoeddus yng Nghymru yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Roedd Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer y cyfrif cyhoeddus y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio arnynt ac roedd angen sylwadau erbyn 16 Tachwedd 2015.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mrs M Thomas am sut yr oedd yr Awdurdod yn mynd i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf, atebodd y Prif Weithredwr bod swyddogion wedi bod yn aros am y canllawiau. Ychwanegodd nad oedd yn poeni'n ormodol am allu'r Awdurdod i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, er ei fod yn bryderus am yr elfen atebolrwydd; roedd y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Gwella bob blwyddyn, a oedd yn gwrthdaro rhywfaint â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. At hynny, roedd Bil yr Amgylchedd ar hyn o bryd ar ei ffordd drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a byddai'n rhaid ystyried gofynion y Bil hwnnw hefyd.

Gan droi'n ôl at ofynion y Ddeddf ei hun, aeth ymlaen i ddweud bod y cyfrifoldeb ar yr Awdurdod - fel un o'r cyfrif cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf - i osod ei nodau llesiant ei hun, gan gymryd i ystyriaeth (a chyfrannu at) Cynllun Llesiant Sir Benfro, a fyddai'n cael ei gyhoeddi gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus lleol newydd. Byddai'r Ddeddf yn sefydlu system reoleiddio gwbl newydd erbyn mis Ebrill 2017 a byddai'r deuddeg mis nesaf yn cael eu defnyddio i ddyfeisio proses ar gyfer cyflwyno'r broses newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R Kilmister at Bennod 6 o'r canllawiau sy'n ymwneud â 'rôl ar y cyd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus' lle mae'n ofynnol i bwyllgor craffu gael ei sefydlu i graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Gofynnodd a fyddai'r gofyniad yn berthnasol Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Os nad oedd, awgrymodd y gallai fod yn briodol i gynrychiolydd o'r Awdurdod wasanaethu ar bwyllgor(au) craffu Cyngor Sir Penfro wrth graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus



lleol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n codi'r mater gyda swyddogion y Cyngor Sir.

PENDERFYNWYD nodi'r canllawiau drafft ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

11. Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn, a'i fod yn asesu i ba raddau y cyflawnwyd strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd Adroddiad Monitro 2014 yn cyflwyno 'canfyddiadau allweddol' yr asesiad hwnnw, gan nodi'r materion a gododd a lle'r oedd angen cymryd camau pellach. Roedd hefyd yn rhoi portread cyffredinol o'r amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Roedd Cyngor Sir Penfro wedi cael cyfle i ystyried y ddogfen ac roedd ei sylwadau wedi eu hatodi i'r adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad am nifer o bwyntiau, gan gynnwys y posibilrwydd o fethu â defnyddio'r cyfraniadau tai fforddiadwy a oedd eisoes wedi dod i law i ddarparu rhagor o dai fforddiadwy. Holwyd hefyd pam nad oedd yn gyfrifol am gasglu'r cyfraniad tai fforddiadwy ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd cynllunio, er mai Awdurdod y Parc Cenedlaethol a oedd yn gyfrifol am y polisi tai fforddiadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Atebodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc fod y cyfraniad tai fforddiadwy yn cael ei dalu i'r Cyngor Sir, gan mai ef oedd yr awdurdod tai. Sicrhaodd yr Aelodau fod y mater yn cael ei fonitro'n rheolaidd, ond roedd angen cael symiau mawr o arian cyn y gellid dwyn ymlaen safleoedd datblygu posibl. Fodd bynnag, cytunwyd fod tua £10,000 yn cael ei roi i gymdeithas dai i ddwyn ymlaen safle eithriadau ym Marloes.

Soniwyd hefyd am y diffyg cynnydd gyda rhai safleoedd datblygu a neilltuwyd, gan gynnwys rhai ym mherchnogaeth Cyngor Sir Penfro. Cytunodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc fod y mater yn effeithio ar sut yr oedd yr Awdurdod yn cyrraedd ei dargedau, ond roedd trafodaethau ar y gweill yn hynny o beth. Tynnodd y swyddogion hefyd sylw'r Cyngor Sir at safleoedd eraill yn y Parc Cenedlaethol, gan ofyn a oedd unrhyw fwriad i ddatblygu'r rhain yn y dyfodol.



Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â pharthau nitradau, atebodd y swyddogion eu bod wedi cymryd y mater i ystyriaeth wrth adolygu a oedd y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at yr amcanion arfarnu cynaliadwyedd.

PENDERFYNWYD bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol 2014 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2015.

12. Ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi trafod y Papur Gwyrdd uchod yn helaeth mewn cyfarfod o'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2015. Roedd yr Aelodau hefyd wedi cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro ar 4 Medi, lle byddai cynrychiolwyr o amryw grwpiau yn bresennol, i glywed eu barn ar y mater.

Roedd ymateb drafft i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Dywedodd y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy fod yr ymateb yn cymryd i ystyriaeth sylwadau swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ychwanegodd y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn anfon ei ymateb ei hun i'r ymgynghoriad.

I grynhoi, aeth yn ei flaen i ddweud bod yr ymateb yn cael ei nodweddu gan agwedd sy'n ceisio hyrwyddo a datblygu mynediad llinellol, drwy sicrhau gwell rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus, fel y prif ddull o gael mynediad i gefn gwlad Cymru. Roedd y Swyddogion o'r farn mai'r gweithdrefnau cyfreithiol sy'n llywodraethu gweinyddiaeth y rhwydwaith yr oedd angen eu diwygio, yn hytrach na chyflwyno setliad mynediad newydd yng Nghymru. Roedd yr ymateb, felly, yn awgrymu amrywiaeth o awgrymiadau a fyddai, ym marn swyddogion, yn cynnig ffordd ymlaen yn hyn o beth.

Roedd pryder hefyd na fyddai rhai o'r cynigion a gyflwynir yn y Papur Gwyrdd o reidrwydd yn gwarantu safon resymol o fynediad i gefn gwlad nac yn cyflwyno sicrwydd mynediad o ran rheoli, a byddai'r cysylltiadau â pherchnogion tir gwledig a ffermwyr yn drech na'r manteision. Wedi dweud hynny, roedd nifer o gynigion eraill i'w croesawu, ee cynllunio strategol ar gyfer datblygu mynediad i gefn gwlad, a chyflwyno dull mwy



cyson o hawliau a chyfrifoldebau o ran mynd â chŵn am dro yng nghefn gwlad.

I gloi, dywedodd y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy fod y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cefnogi'n gryf yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu lefelau cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden awyr agored a mynediad i gefn gwlad. Fodd bynnag, roedd y swyddogion o'r farn bod codi lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn yw darpariaeth eithaf da yn allweddol i gyflawni'r cynnydd a ddymunir mewn lefelau cyfranogiad. Yn hyn o beth, teimlwyd bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol mewn sefyllfa dda i chwarae rôl allweddol o ran addysgu'r cyhoedd a hyrwyddo rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli er mwyn annog pobl i fod yn fwy egnïol.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion ar gynnwys yr ymateb drafft, a oedd wedi cymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD cyflwyno'r ymateb drafft fel ymateb Parciau Cenedlaethol Cymru i Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar wella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol.

13. Gwerthuso'r arbrawf i gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gylch chwe wythnos yn hytrach na bob mis

Ym mis Mehefin 2014 cyflwynwyd cylch chwe wythnos o gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu am gyfnod prawf o ddeuddeg mis. Fodd bynnag, gan fod angen cyflwyno calendr yr Awdurdod o gyfarfodydd i'w gymeradwyo gan yr Aelodau cyn i'r cyfnod prawf ddod i ben, cytunodd yr Aelodau i barhau â'r cylch chwe wythnos am ddeuddeg mis arall cyn belled ag y cynhelir adolygiad cyn llunio calendr 2016/17 o gyfarfodydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio nad oedd y cylch newydd wedi arwain at gynydd mawr yn y nifer o geisiadau cynllunio sy'n cael eu hystyried gan yr Aelodau yn y Pwyllgor a bod cyfarfod, ar gyfartaledd, yn para tua 2.5 awr. Yn ogystal, roedd canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn wyth wythnos neu lai yn gyson uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 75%.

Aeth ymlaen i ddweud bod y gostyngiad yn nifer cyfarfodydd y Pwyllgor wedi galluogi'r tîm Rheoli Datblygu i sefydlu rota swyddog ar ddyletswydd,



a gafodd ei dargedu'n bennaf at geisiadau gan ddeiliaid tai a'r rhai sydd eisiau cyngor pellach yn dilyn ymateb cyn cyflwyno cais ysgrifenedig. Ar lafar, roedd y swyddogion hefyd yn sôn bod cylch Pwyllgor a oedd ychydig yn hwy yn llai o straen iddynt a'u bod yn gallu rhaglennu eu gwaith yn fwy effeithiol a rhoi amserlenni mwy realistig i ymgeiswyr.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cynllunio fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer cynllun cynhwysfawr o godi tâl cyn ymgeisio ar gyfer awdurdodau cynllunio Cymru gyfan ac y byddai ymateb i'r ymgynghoriad a'r dulliau y dylai awdurdodau eu defnyddio i godi tâl yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref. Nid oedd yr Awdurdod ar hyn o bryd yn codi tâl am y gwasanaeth hwn, ond byddai'r swyddogion yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos yn y dyfodol yn unol ag unrhyw gyfarwydddebau gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn.

PENDERFYNWYD bod y cylch chwe wythnos o gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn parhau ar sail barhaol.

14. Cyfarwyddyd Erthygl 4 i leihau hawliau datblygu penodol a ganiateir penodol sy'n effeithio ar ansawdd Ardal Gadwraeth Aber-bach

Atgoffwyd yr Aelodau y penderfynwyd, yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2015, i wneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) ar gyfer Ardal Gadwraeth Aber-bach. Er mwyn diogelu cymeriad yr ardal, roedd y Cyfarwyddyd yn tynnu rhai hawliau datblygu a ganiateir yn ôl, gan gynnwys newidiadau i ddrysau, ffenestri, waliau terfyn a lloriau caled ar gyfer tai annedd o flaen priffyrdd neu fannau cyhoeddus.

Roedd y Cyfarwyddyd wedi cael ei gyhoeddi yn y wasg, a chafodd perchnogion / deiliaid pob annedd yr effeithir arnynt gan y Cyfarwyddyd wybod amdano. Rhoddwyd gwybod i'r cyhoedd sut i wneud sylwadau os oeddent yn dymuno hynny. Roedd y cyfnod ymgynghori statudol o 28 diwrnod wedi mynd heibio erbyn hyn, ac ni ddaeth unrhyw ymatebion i law.

PENDERFYNWYD:

- (a) bod y Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn cael ei gadarnhau mewn perthynas â'r tir o fewn Ardal Gadwraeth Aber-bach fel yr amlygwyd ar y map a oedd yn yr adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, a
- (b) bod y Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) ffurfiol ar gyfer Ardal Gadwraeth Aber-bach yn cael ei nodi.



15. Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau

Atgoffodd y Swyddog Monitro yr Aelodau fod swydd wag wedi codi ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod yn dilyn ymddiswyddiad Mr Jonathan Evans. Roedd y swydd wag wedi cael ei hysbysebu, a chafodd dau ymgeisydd eu cyfweld gan Banel Penodi'r Pwyllgor Safonau ar 14 Awst 2015.

Yn unol â Rheoliad 16 (2) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, a Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, roedd y Panel wedi argymhell bod Mrs Victoria Tomlinson yn cael ei phenodi'n Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 5 mlynedd.

PENDERFYNWYD y dylid penodi Mrs Victoria Tomlinson yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ar unwaith am gyfnod o 5 mlynedd.

16. Adolygiadau Datblygiad Personol yr Aelodau: adolygiad o'r broses

Roedd yr Adolygiadau Datblygiad Personol (PDR) yn gyfle i'r Aelodau fyfyrion ar eu rôl fel Aelod o'r Awdurdod a thrafod unrhyw ofynion datblygu / cymorth y byddent yn hoffi eu cael er mwyn eu helpu yn y rôl honno. Mabwysiadwyd y broses PDR yn 2013 yn dilyn adolygiad o'r broses flaenorol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o ymateb yr Aelodau yn ystod y ddwy flynedd flaenorol nad oedd y broses bresennol yn ateb y diben.

O ystyried hyn, roedd y Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau wedi ystyried ac wedi cytuno y gallai ffurflen hunanasesu fod yn fwy priodol, ac roedd y ddogfen honno ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

PENDERFYNWYD bod y broses ddiwygiedig ar gyfer nodi anghenion cefnogi a datblygu yr Aelodau, fel y nodwyd yn adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, yn cael ei chymeradwyo.

17. Proffil Economaidd Sir Benfro

Soniwyd bod Cyngor Sir Penfro wedi comisiynu ymgynghorwyr i lunio adroddiad o broffil economaidd Sir Benfro. Roedd copi o'r adroddiad wedi'i ddsbarthu i'r Aelodau. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r gwaith yn cael ei ddefnyddio i gefnogi polisi a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys datblygu strategaeth economaidd ar gyfer Sir Benfro.



PENDERFYNWYD bod yr astudiaeth ar broffil economaidd Sir Benfro yn cael ei nodi.

18. Polisi cronfeydd ariannol wrth gefn

Atgoffodd y Prif Swyddog Ariannol yr Aelodau fod Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i gwrdd â gwariant amcangyfrifedig yn y dyfodol wrth gyfrifo eu hanghenion ar gyfer y gyllideb flynyddol. Ychwanegodd mai ei gyfrifoldeb ef oedd rhoi cyngor ar lefel y cronfeydd wrth gefn y dylid eu cadw, ac i sicrhau bod protocolau clir ar gyfer sefydlu a defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Roedd y ddogfen bolisi ynghlwm wrth ei adroddiad yn nodi sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi cronfeydd ariannol wrth gefn.

19. Mater brys

PENDERFYNWYD, oherwydd amgylchiadau arbennig, fod yr eitemau canlynol i gael eu codi fel mater o frys, yn unol ag Adran 100(B)(4)(b) o Deddf Llywodraeth Leol 1972.

20. Gwahardd y cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

21. Her gyfreithiol i'r penderfyniad cynllunio

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cais wedi ei gyhoeddi yn yr Uchel Lys i geisio Adolygiad Barnwrol o benderfyniad cynllunio a wnaed gan yr Awdurdod. Roedd wedi dechrau proses o gael cyngor gan Fargyfreithiwr a byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Aelodau maes o law. Ychwanegodd, ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Cyllid, fod £25,000 wedi cael ei roi o'r neilltu i frwydro'r cais.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan y Prif Weithredwr.

